SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL SWYDD:	**Dadansoddwr / Datblygwr Data Systemau Busnes Graddedig TG**
ATEBOL I:	Arweinydd Tîm: BI, Data a Dadansoddeg
ADRAN:	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
CYFLOG (£):	Graddfa 7

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Beth fyddwch chi'n ei wneud:

Byddwch yn gyfrifol am gynorthwyo'r Tîm Cefnogi Busnes i weithredu, cefnogi, cynnal, cadw, a datblygu systemau busnes Adra mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, a datblygu systemau busnes Adra i'r safonau sydd wedi'u nodi yng nghytundeb lefel gwasanaeth TGCh. Mae'r systemau hyn yn cynnwys elfennau bwrdd gwaith a dyfeisiau symudol yn ogystal â phecyn Microsoft 365. Byddwch yn arbenigo mewn data, dadansoddeg a gwybodaeth busnes.

Beth yr ydym yn chwilio amdano:

Unigolyn brwd, gyda sgiliau cyfathrebu ardderchog, ac yn awyddus i ddysgu am weithrediadau desg gymorth TG a datblygu meddalwedd a datrysiadau dadansoddeg drwy gylch-bywyd y meddalwedd.

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Cyffredinol:

- Cynorthwyo i ddatrys galwadau am gymorth sy'n dod i law'r ddesg gymorth, gan ddefnyddio technegau rheoli ystwyth modern (Kanban, Scrum ayyb), o fewn y safonau gwasanaeth sydd wedi'u diffinio gyda lefel uchel o foddhad cwsmer.
- Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu datrysiadau data a dadansoddeg newydd a gwella systemau presennol i ddiwallu amcanion a data strategaeth ddigidol Adra ac amcanion y cynllun corfforaethol gan ddefnyddio'r dechnoleg briodol.
- Cefnogi symbyliad staff Adra gan herio yn barhaus eu prosesau busnes sy'n seiliedig ar feddalwedd a datblygu datrysiadau arloesol i ddarparu gwelliannau ac felly ysgogi defnydd effeithiol a phwerus o systemau busnes Adra.
- Cynorthwyo i hwyluso ymdrechion timau Systemau Busnes i wneud y gorau o fuddsoddiad Adra yn Microsoft 365 Power BI.
- Darparu dogfennaeth ar gyfer holl waith datblygu a chyflwyno ar gyfer dilysu i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r cwmni.
- Darparu cynnwys hyfforddiant systemau busnes o ansawdd a hwyluso darparu yn rheolaidd i staff yn unol â'r angen.

Technegol.

- Cynorthwyo gyda diagnosis system gymhleth a phroblemau gyda chymwysiadau.
- Darparu cefnogaeth rheng flaen ac ail reng i holl systemau busnes presennol.
- Darparu cefnogaeth weithredol i ddefnyddwyr technolegau gweithio symudol Adra, i gynnwys, diagnosis gwall a datrysiad, uwchraddio arferol, profi, adleoli byw a dyletswyddau gweinyddu system.
- Datblygu datrysiadau meddalwedd a dadansoddeg ardderchog sy'n diwallu ac yn aml yn mynd y tu hwnt i ofynion y defnyddiwr gan ddefnyddio canllawiau arfer gorau. Cynorthwyo gyda rhyddhau a chynnal a chadw meddalwedd o'r fath drwy holl gylch bywyd y meddalwedd.
- Monitro system wedi'i hawtomeiddio a systemau gwyliadwriaeth (gan gynnwys cyfathrebu dyfeisiau symudol) fel nad effeithir ar ddarparu gwasanaeth.

Arall

- Cydymffurfio gyda gofynion ISO 9001, ISO 14001 a OHSAS 18001 o ran materion Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol.

Amgylchiadau Arbennig

- O dro i dro, bydd gofyn i ddeilydd y swydd weithio ar adegau llai prysur i gynnal argaeledd y system yn unol â'n safonau gwasanaeth sydd wedi'u cyhoeddi.

Ni all unrhyw ddisgrifiad swydd ymdrin â phob mater a all godi o fewn y rôl ar adegau amrywiol. Er mwyn cynnal gwasanaeth effeithiol efallai y bydd disgwyl i chi ymgymryd â thasgau eraill rhesymol, sy'n cyfateb i raddau helaeth â'r rhai a geir yn y ddogfen hon fel y pennir gan eich Cyfarwyddwr.

MANYLEB PERSON	HANFODOL/ DYMUNOL
CYMWYSTERAU	
Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â chyfrifiadura	H
Tystysgrifau Microsoft neu arall yn ymwneud â TG	D
PROFIAD, GWYBODAETH A SGILIAU	
Dealltwriaeth o ddesg cymorth adran TG a sut y maent yn datrys cymysgedd o faterion yn gofyn am gymorth a newid, gan ddefnyddio technegau rheoli ystwyth (Kanban, Scrum ayyb).	D
Technegydd cadarn a brwd, yn gallu dangos dealltwriaeth eang o dechnoleg.	H
Deall technolegau'r we fel IIS, HTML, CSS, a XML.	H

Deall systemau busnes sy'n cael eu gyrru gan fas data a SQL.	H
Deall methodoleg datblygu Ystwyth fel 'scrum'.	D
Deall technolegau dyfeisiau gweithio symudol.	D
Datblygu sgiliau amgylchedd gweithio cydweithredol (e.e. Office 365 neu Google Workspace/G-suite).	D
Sgiliau SQL wedi'u datblygu.	D
Wedi datblygu sgiliau cod-isel (e.e. systemau awtomeiddio llif gwaith, prosesau awtomeiddio roboteg)	D
GOFYNION IEITHYDDOL/ ERAILL	
Gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl ac ysgrifennu yn y ddwy iaith.	H (siarad) / D (ysgrifenedig)
Trwydded Gyrru Lawn gyda mynediad at gerbyd.	D